**Eitem ar yr agenda: 3**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Mawrth 13eg Rhagfyr 2005 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 12.05 y prynhawn.

**Yn bresennol:**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Williams (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A MacLennan (dirprwy) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); R D Peacock (Aelod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn bresennol fel sylwedydd) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

**1) Ymddiheuriadau**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Cafodd yr aelodau wybod gan y Cadeirydd y byddai datganiad yn cael ei wneud gan y Prif Swyddog Tân ynghylch llythyr a dogfen ymgynghorol a dderbyniwyd yn ddiweddar oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad o'r enw "Service Standards for Attendance to Fires in the Home and Risk Reduction Planning Guidance for the Fire and Rescue Authorities".

Cafodd y Panel wybod hefyd ei fod, yn dilyn cyfarfod Gweithgor y Cynllun Risg, wedi derbyn cais i drafod eitem fusnes frys arall ac y byddid yn ei thrafod dan fusnes Rhan II.

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd J A MacLennan i'r cyfarfod. Roedd y Cynghorydd MacLennan yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd S C Jones. Cafodd aelodau'r Panel wybod gan y Cadeirydd fod y Cynghorydd S C Jones yn dal yn yr ysbyty ar y pryd, ac mai dim ond ymweliadau gan aelodau'r teulu'n unig a ganiateid.

## 3) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 26ain Hydref 2005

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion***

## 4) Materion yn codi

Roedd y materion canlynol yn codi o'r cofnodion:

**Tud. 2, Eitem 4, Materion yn codi – Y berthynas rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) a'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru:** cafodd y Panel wybod gan y Prif Swyddog Tân fod cyfarfod cyntaf Panel Gwasanaethau Tân Cymru'r Gymdeithas wedi cael ei gynnal ar 25ain Tachwedd 2005. Oherwydd y tywydd garw, roedd Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, a oedd wedi mynychu cyfarfodydd eraill yng Nghaerdydd y diwrnod hwnnw, wedi gorfod gadael Caerdydd cyn dechrau cyfarfod y Panel. Roedd y Prif Swyddog Tân wedi cymryd rhan trwy gyswllt fideo. Roedd Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru; Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru; Prif Swyddog Tân y Canolbarth a'r Gorllewin; Mr Steve Thomas, Cyfarwyddwr y Gymdeithas a swyddogion eraill y Gymdeithas yn bresennol. Roedd y tywydd hefyd wedi rhwystro Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin rhag bod yn bresennol. Cafodd yr aelodau wybod gan y Prif Swyddog Tân ei fod wedi codi'r mater yn ymwneud ag aelodaeth y Panel yn y cyfarfod ac wedi awgrymu y dylai pum aelod etholedig fod yn cynrychioli pob Awdurdod. Roedd y cynrychiolwyr eraill yno yn anghytuno â'r farn hon a gwnaethant bleidleisio o blaid i bob awdurdod gael ei gynrychioli gan ei Gadeirydd a'i Is-Gadeirydd, gan adolygu'r trefniadau hyn

ymhen 12 mis. Mynegwyd yn y cyfarfod y byddai cynrychiolwyr yn cael dod ag aelodau gyda hwy i gyfarfodydd Panel Gwasanaethau Tân y Gymdeithas fel sylwedyddion. Cafodd aelodau'r Panel Gweithredol wybod gan y Cadeirydd ei fod yn llai na bodlon â'r canlyniad hwn, yn enwedig o ystyried mai dim ond un cynrychiolydd gwleidyddol oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Dywedodd wrth yr aelodau ei fod yn bwriadu codi'r mater eto yng nghyfarfod nesaf Panel Gwasanaethau Tân y Gymdeithas. Atgoffwyd yr aelodau gan y Cynghorydd E C George fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cael trafodaeth helaeth ynghylch nifer y cynrychiolwyr i wasanaethu ar y math yma o bwyllgor. Roedd o'r farn y byddai angen efallai i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru adolygu ei bolisi i beidio â dilyn cydbwysedd gwleidyddol wrth enwebu cynrychiolwyr i wasanaethu ar bwyllgorau petai'r ddau awdurdod arall yn parhau i gytuno bod Cadeirydd ac Is-Gadeirydd pob Awdurdod yn ddigonol i wasanaethu ar Banel y Gymdeithas. Pe na bai aelodaeth Panel y Gymdeithas yn cael ei ymestyn i gynnwys rhagor o gynrychiolwyr o bob Awdurdod, ni fyddai'r Panel yn ddim amgenach na'r hen Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru dan enw arall. Roedd y Cynghorwyr E C George a W J Chorlton o'r farn y dylai'r Awdurdod gyflwyno sylwadau i'r Gymdeithas i gofnodi ei wrthwynebiad i'r penderfyniad. Awgrymodd y Prif Swyddog Tân y byddai cyflwyno sylwadau ar hyn o bryd braidd yn gynamserol ac mai doeth o beth fyddai i'r Awdurdod aros hyd nes cyhoeddi nodiadau'r cyfarfod cyntaf. Addawodd ddosbarthu copi o nodiadau cyfarfod cyntaf Panel Gwasanaethau Tân y Gymdeithas i aelodau'r Panel Gweithredol pan y derbyniai hwy. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

- ***i. dosbarthu copïau o nodiadau cyfarfod cyntaf Panel Gwasanaethau Tân Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i holl aelodau'r Panel Gweithredol pan y'i derbyniwyd, ac yn ddibynnol ar eiriad y nodiadau;***
- ***ii. bod y Cadeirydd yn codi mater cyfansoddiad Panel Gwasanaethau Tân y Gymdeithas yn y cyfarfod nesaf, ac***
- ***iii. os bydd angen, anfon llythyr i'r Gymdeithas yn cofnodi siom Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gyda phenderfyniad Panel y Gwasanaethau Tân ynghylch cyfansoddiad aelodaeth y Panel a'r dull y gwnaethpwyd y penderfyniad yn absenoldeb y rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr gwleidyddol. Dylai'r llythyr ailddatgan barn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ynghylch cyfansoddiad aelodaeth Panel Gwasanaethau Tân y Gymdeithas a gofyn am ymestyn yr aelodaeth i gynnwys aelodau etholedig eraill yn ogystal â chadeiryddion ac is-gadeiryddion pob awdurdod.***

O ran Pwyllgor Ymgynghorol Tân ac Achub Cymru, cafodd aelodau'r Panel wybod gan y Cadeirydd fod y Gweinidog wedi ei gwneud yn hysbys y byddai'n croesawu sylwedyddion o bob awdurdod i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Panel mai ei fwriad oedd gwahodd aelodau i ddod gydag ef i gyfarfodydd yn y dyfodol.

**Tud. 3, Datganiad gan Swyddfa Archwilio Cymru:** Nododd y Cynghorydd J A MacLennan ei siom am fethiant y Swyddfa Archwilio i gwblhau'r archwiliad o

gyfrifon yr Awdurdod mewn pryd. Esboniodd y Prif Swyddog Tân fod y newidiadau angenrheidiol nawr wedi eu cytuno ac y byddai'r Datganiad terfynol o Gyfrifon yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ar 19eg Rhagfyr 2005. Byddai cynrychiolydd o'r Swyddfa hefyd yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno eu canfyddiadau a'u barn.

**Tud. 5, Llythyrau at Weinidogion:** cadarnhaodd y Clerc fod llythyr wedi ei anfon at y Gweinidogion perthnasol yn tynnu sylw at y trafferthion a wynebai'r Awdurdod wrth geisio gosod ei gyllideb o ganlyniad i oedi Llywodraeth y Cynulliad wrth gyhoeddi cyfarwyddyd drafft at ddiben ymgynghori a chyflwyno deddfwriaeth. Yn ddiweddar, roedd ymgynghoriad ar y Safonau Gwasanaeth wedi cael ei ddechrau, a byddai datganiad ynghylch y mater yn cael ei wneud gan y Prif Swyddog Tân dan "Faterion Brys".

**Tud. 7, Eitem 10, Ailstrwythuro Arfaethedig yr Heddluoedd ac Awdurdodau'r Heddlu:** cafodd y Panel wybod gan y Prif Swyddog Tân fod y llythyr ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y Cynulliad ar "Ailstrwythuro'r Heddlu" wedi ei anfon fel y'i lluniwyd. Er i'r llythyr gael ei lunio gyda'r bwriad o beidio â chynnig barn naill ai o blaid uno, neu gadw'r status quo, ynghylch strwythur yr heddluoedd ac awdurdodau'r heddlu, roedd yn ymddangos fel petai diffyg eglurder ymysg swyddogion y Cynulliad a'r cyfryngau ynghylch safbwynt yr Awdurdod.

**5) Cynllun Integredig Rheoli Risg – Cynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) Paul Claydon ei adroddiad a Chynllun Gweithredu trydedd flwyddyn drafft y Cynllun Integredig Rheoli Risg (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i'r Panel. Yn dilyn trafodaeth fanwl yng nghyfarfod Gweithgor y Cynllun Risg, a gynhaliwyd yn gynharach, a derbyn y newidiadau a roddwyd gerbron:

***<u>Penderfynwyd yn unfrydol</u>: –***

- ***i. i nodi cynnwys yr adroddiad;***
- ***ii. i gymeradwyo Cynllun Gweithredu trydedd flwyddyn drafft y Cynllun Risg fel y'i lluniwyd gan aros cynnwys yr eitemau canlynol:***
  - ***a) pan ddaw'r cerbyd cyrraedd yn uchel, sydd ar hyn o bryd yng Ngorsaf Dân Bangor, i ddiwedd ei oes weithredol, bod y Gwasanaeth yn gweithredu gyda fflyd o dri pheiriant o'r fath, ac y lleolir y tri pheiriant ym Mangor, y Rhyl a Wrecsam, a mabwysiadu 30 munud o safon cyrraedd ar gyfer y peiriannau hyn;***
  - ***b) fod y Gwasanaeth yn ymgymryd â threialu cyd-ymateb, gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, yng ngorsafoedd tân Porthmadog, Abermaw a Harlech. Y treialon hyn hefyd i fod yn rhan o astudiaeth ddichonoldeb fanwl fyddai'n edrych ar ba effaith y byddai darparu gwasanaeth cyd-ymateb yn ei gael ar adnoddau'r Awdurdod a gwerthuso'r manteision i'r cyhoedd a'r Gwasanaeth o ddarparu gwasanaeth cyd-ymateb; ac***

*iii. argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub, yn ei gyfarfod ar 19eg Rhagfyr 2005, ei fod yn cymeradwyo Cynllun Gweithredu trydedd flwyddyn drafft y Cynllun Risg at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus.*

## 6) Materion Brys

**"Service Standards for Attendance to Fires in the Home and Risk Reduction Planning Guidance for the Fire and Rescue Authorities":** Dosbarthwyd copi o lythyr y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn Llywodraeth y Cynulliad, dyddiedig 30ain Tachwedd 2005, i'r aelodau yn y cyfarfod. Cafodd yr aelodau wybod gan y Prif Swyddog Tân nad oedd y ddogfen ymgynghorol ei hun yn cynnwys unrhyw gyfeiriadau penodol at amseroedd cyrraedd. Fel a nodwyd yn y llythyr, roedd y pwyslais ar gael cydbwysedd priodol rhwng gwaith rhagweithiol ac ymatebol. Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth y Panel ei fod yn bwriadu llunio ymateb drafft, ar ran yr Awdurdod, a fyddai'n cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod yr Awdurdod ar 19eg Rhagfyr 2005 ar gyfer ystyriaeth yr aelodau. Pwysleisiodd na fyddai o fudd i'r Awdurdod gytuno i unrhyw safonau nad oedd modd eu cyrraedd. Felly, roedd yn bwysig i'r Awdurdod edrych yn fanwl ar y cynigion pan fyddent yn cael eu cyhoeddi. Oherwydd daearyddiaeth amrywiol Cymru a lleoliad y prif ganolfannau poblogaeth, byddai gosod un Safon Gwasanaeth cyffredin i'w ddilyn ledled y wlad yn beth anymarferol ac anghyraeddadwy, oni bai fod safonau gwahanol yn cael eu gosod ar gyfer ardaloedd gwahanol.

## 7) Dyddiad(au) cyfarfod(ydd) y dyfodol

Cafodd aelodau'r Panel wybod gan y Cadeirydd mai ei fwriad oedd trafod a gosod dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd nesaf Gweithgor y Cynllun Risg a'r Panel Gweithredol yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 19eg Rhagfyr 2005.

Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau mai'r argymhelliad oedd trafod yr eitemau busnes oedd yn weddill ar agenda'r cyfarfod heb i'r cyhoedd na'r Wasg fod yn bresennol. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Ran I o Atodlen 12A of Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 yn cael ei datgelu iddynt.***

Gadawodd pob swyddog ac eithrio'r Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, y Clerc, y Trysorydd a'r Swyddog Cyswllt Aelodau y cyfarfod yn y fan hon.

**RHAN II**

## 8) Materion Brys

**Cynllun Risg – Cynllun Gweithredu y Drydedd Flwyddyn Drafft:** Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Panel ei fod wedi cytuno, yn dilyn cais, i gael trafodaeth bellach ynghylch lleoliad y tri pheiriant cyrraedd yn uchel a fyddai'n dal i wasanaethu dan gynllun gweithredu trydedd flwyddyn drafft Cynllun Risg yr Awdurdod. Mewn ateb i gwestiwn, hysbyswyd yr aelodau y byddai'r Awdurdod, petai lleoliad arfaethedig un o'r peiriannau hyn yn cael ei newid o orsaf dân lawn amser i orsaf dân criw dydd, yn gweld arbedion pellach o ryw £50k. Wedi trafodaeth:

***Penderfynwyd: - cadarnhau fod ei argymhelliad ynghylch lleoliadau'r peiriannau cyrraedd yn uchel dan y bwriadau sydd yng Nghynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn Drafft Cynllun Risg yr Awdurdod yn aros fel Bangor, y Rhyl a Wrecsam.***

## 9) Mater Staffio

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) yn rhoi gwybod i'r aelodau am gyfle i ailffurfio rolau a chyfrifoldebau a chreu swydd Prif Swyddog Cynorthwyol Cyllid a Chaffael. Byddai creu'r swydd hon yn gwella darpariaeth strategol yr Awdurdod o ran cyllid a chaffael. Aeth yn ei flaen i esbonio fod y cynnig i greu'r swydd newydd yn ganlyniad i adolygiad diweddar o swyddogaethau y gwasanaethau corfforaethol. Byddai creu'r swydd newydd yn golygu cael gwared ar y ddwy swydd bresennol, sef Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) a Rheolwr Gwasanaethau Cefnogol. Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân amlinelliad i'r Panel o rolau a chyfrifoldebau deiliaid y swyddi presennol, ac wedi ailddyrannu'r cyfrifoldebau ac ailffurfio'r rolau, yr hyn a ddisgwylir o ddeilydd y swydd newydd o ran darparu gwybodaeth gynhwysfawr am berfformiad ariannol i'r Awdurdod fel sail i wneud penderfyniadau strategol. Rhoddwyd esboniad manwl i'r aelodau gan y Trysorydd am y goblygiadau ariannol i'r Awdurdod o ganlyniad i'r ailstrwythuriad hwn. Dywedodd hefyd wrth y Panel fod darpariaeth ar gyfer canlyniadau ariannol y cynnig i ailstrwythuro wedi ei gymryd i ystyriaeth wrth osod cyllideb ddrafft yr Awdurdod ar gyfer 2006/07. Rhoddwyd sicrwydd i'r Panel gan y Cadeirydd a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân fod deiliaid presennol y ddwy swydd wedi cael eu briffio'n llawn ar y cynigion a gyflwynwyd i'r aelodau ac roeddent yn ymwybodol o fanylion y pecynnau diswyddo a fyddai'n cael eu cynnig iddynt petai'r cynigion yn cael eu cymeradwyo. Roeddent hefyd yn llwyr sylweddoli, er eu bod yn cytuno mewn egwyddor i dderbyn telerau ac amodau'r pecynnau a gynigiwyd, mai'r Awdurdod oedd biau'r penderfyniad ac nad oedd unrhyw sicrwydd y derbyniai gymeradwyaeth.

Tra'n ateb cwestiynau'r aelodau, cadarnhaodd swyddogion mai swyddi llywodraeth leol di-lifrai oedd y ddwy swydd. Roedd y ddau swyddog wedi

gwasanaethu am dros 30 o flynyddoedd yr un ac wedi bod yn weithwyr canmoladwy i'r Awdurdod. Roedd y Cynghorydd E C George yn teimlo y dylai'r adroddiad fod wedi cynnwys gwybodaeth ynghylch materion megis nifer y blynyddoedd o wasanaeth roedd y ddau unigolyn wedi eu cyflawni hyd yn hyn, ynghyd â phryd y byddai'r ddau'n bwriadu ymddeol, er mwyn i'r aelodau allu bod mewn gwell sefyllfa i farnu beth oedd orau i'r Awdurdod. Rhoddodd y Prif Swyddog Tân sicrwydd i'r aelodau fod angen i'r Awdurdod oherwydd yr hinsawdd reoli bresennol, newid y rolau a'r cyfrifoldebau ar hyn o bryd yn hytrach nag yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Clerc wrth yr aelodau fod gan y Panel Gweithredol, o dan y pwerau a ddirprwywyd iddo gan yr Awdurdod, yr hawl i benderfynu ynghylch defnyddio pwerau dan y cynllun pensiwn. Oherwydd bod y swydd newydd yn un ar gyfer uwch swyddog, byddai panel penodi o blith aelodau'r Panel Gweithredol yn cael ei ffurfio yn unol â'r trefniadau arferol. Wedi trafodaeth:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

- ***i. sefydlu swydd Prif Swyddog Cynorthwyol Cyllid a Chaffael;***
- ***ii. cael gwared ar y swydd Rheolwr Gwasanaethau Cefnogol i ddod i rym ar 1af Ebrill 2006;***
- ***iii. cael gwared ar y swydd Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) i ddod i rym ar 1af Mehefin 2006; a***
- ***iv. defnyddio polisi diswyddo/ymddeoliad cynnar gwirfoddol yr Awdurdod a'i bwerau dewisol dan 'Reoliadau - Taliadau Dewisol (Gwelliannau) – Llywodraeth Leol 1999' yn achos y swyddi sydd i'w tynnu o'r gweithle ar y sail yr adroddwyd.***

Daeth y cyfarfod i ben am 1 y prynhawn.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** <u>T Roberts</u> **Dyddiedig:** <u>13 Mawrth, 2006</u>